# YSGRIFENNU CREADIGOL



# CYNHADLEDD IATEFL 2012

- Alan Maley (Prifysgol Metropolitan Leeds)

*"We will discuss the advantages of creative writing for learners and teachers,* ***its value for language learning*** *and also for the texts produced, which which can be used as input."*

# MANTEISION O GYFLWYNO YSGRIFENNU CREADIGOL

- Datblygu ymwybyddiaeth o batrymau ieithyddol
- Dysgu effeithiol a phleserus
- Rhai pobl yn dysgu'n well trwy ysgrifennu
- Meithrin hyder y dysgwyr
- Codi disgwyliadau'r dysgwyr
- Mae gan y dysgwyr a'r tiwtor gofnod caled o'u cyrhaeddiad
- Creu llwyddiant yn y Gymraeg

- …plesio Arsylwyr allanol

# YSGRIFENNU YN Y DOSBARTH

- Rhan annatod o’r broses ddysgu
- Cofnod ysgrifenedig o gyrhaeddiad y dysgwyr
- Angenrheidiol i sicrhau bod y dysgwyr yn cyflawni’r 4 sgil, sef:

**Siarad**

**Gwrando**

**Darllen**

**Ysgrifennu**

# PRYD I YSGRIFENNU?

- Gweithgaredd pum /deng munud i dorri ar rythm y dysgu
- Adolygu patrymau
- Yn aml!  Gwnewch ysgrifennu'n arferiad yn lle eithriad.



# GWEITHIO MEWN PARAU

- Dysgu patrymau'n well drwy eu trafod
- Mae'r ymarferion yn fwy cyfathrebol wrth weithio efo partner
- Rhai pobl ddim mor hyderus yn ysgrifennu ar eu pennau eu hunain



- Weithiau bydd ambell un eisiau gweithio ar wahân.

# RHEOLAU IEITHYDDOL

- Gadewch i'r dysgwyr greu'r rheolau os oes cwestiynau'n codi, ee

Ydy **i'r** yn cyfrif fel un gair neu ddau?

Ydy **es i** yn cyfrif fel un gair neu ddau?

# COFIWCH DDOD Â PHAPUR / TEMPLEDI AR GYFER Y GWAITH!

Padiau paper personol ddim yn gweithio os bydd yn gwaith yn cael ei rannu / ffotocopïo / farcio.

Papur A4 sydd orau




**Cofiwch sicrhau bod y myfyrwyr yn rhoi eu henwau, y dosbarth a'r dyddiad ar ben y gwaith**

# RHANNU'R GWAITH EFO'I GILYDD

- Darllen y gwaith allan i'r dosbarth
- Tiwtor i ddarllen y gwaith allan
- Tiwtor yn ysgrifennu darnau byr ar y bwrdd gwyn
- Gosod y gwaith allan yn y dosbarth, a'r myfyrwyr yn mynd o gwmpas efo'u partneriaid i'w ddarllen
- Myfyrwyr yn marcio gwaith ei gilydd
- Pasio'r gwaith o gwmpas y dosbarth
- Gwneud ffotocopïau a rhoi copi i bob un
- Fflip-lyfr

# LLYFR FFLIP




http://online.flipbuilder.com/bdvi/otyd/mobile/index.html#p=1

# YSGRIFENNU I DDECHREUWYR

- Ysgrifennu deialog efo partner
  - **Defnyddiwch y patrwm ’dan ni newydd ei ddysgu**
  - **Defnyddiwch yr holl Gymraeg dach chi wedi ei dysgu hyd yn hyn**
  - **Ysgrifennu deialog efo partner gan smalio bod yn bobl enwog / rhywun arall**

# YSGRIFENNU I DDECHREUWYR - 2

- Ysgrifennwch restr o'r holl eiriau / ymadroddion dach chi'n medru eu cofio

(cystadleuaeth pa bâr sy'n medru cael y rhestr hiraf.  Ffordd dda i ddechrau'r wers)


# YSGRIFENNU I DDECHREUWYR - 3

- Llenwi bylchau (Mae llawer o hyn yn y Gwaith Cartref)
  - **Rhestr o gwestiynau**
  - **Llenwi geiriau perthnasol mewn bylchau**
  - **Aml-ddewis**

- **Wrth gwrs mae'n bosib gwneud y gweithgareddau hyn ar bob lefel**

# YSGRIFENNU I DDECHREUWYR - 4

- Cadw Dyddiadur o'r wers gyntaf ymlaen, gan ddefnyddio patrymau a ddysgwyd:



John dw i Dw in dwad o Manceinion
Dw in byw yn Tyn-y-Morfa
Dw in licio Garddio
Dw i ddim yn licio criced
Dw in gwylio peldroed ar y teledu
Dw in darllen papur newydd

# CERDD 'HELO' 'HWYL FAWR'

**Dilyner y patrwm:**

Helo…………
Hwyl fawr…………..

Helo blant
Hwyl fawr arian.

# Y MODD CYFARCHOL

Ffordd dda i gyflwyno'r treiglad meddal sy'n dod gyda'r modd cyfarchol.

Helo **B**obol

Bore da **b**lant

Gee **g**effyl bach

# STORI NAW GAIR

**1 gair**

**Daeth**

**2 air**

**y myfyrwyr**

**3 gair**

**i'r Ysgol Basg.**

**2 air**

**Dysgu Cymraeg.**

**1 gair**

**Gadael.**

# STORI NAW GAIR - 2

- Ffordd dda i ddefnyddio'r Gorffennol Cryno
- Ffordd dda i ddysgu Treiglad Meddal o'r gwrthrych wrth ddefnyddio'r Gorffennol Cryno, ee

**Daeth**

**y ferch**

**i'r Ysgol Basg.**

**Dysgodd Gymraeg.**

**Gadael**

# ENGHREIFFTIAU ERAILL

Gwelodd
ei gariad
gyda rhywun arall
felly cerddodd
allan
Aderyn
yn hedfan
uwch fy mhen.
Daria! Rhy
agos.

# MAE'N BOSIB DEFNYDDIO FFURF 16 GAIR:

**1 gair**

**2 air**

**3 gair**

**4 gair**

**3 gair**

**2 air**

**1 gair**

# CERDD WREIDDYN

Dw i'n hoffi'r ffordd (Dw i'n casáu'r ffordd)

…rwyt ti'n gwneud dy wallt

…rwyt ti bob tro yn dallt

…Mae'r awyr yn las

…Dwyt ti byth yn gas

**Mae'n bosib defnyddio ODLIADUR (mae ar gael ar-lein ar ffonau'r myfyrwyr) i gael odlau.**

http://www.cs.ox.ac.uk/people/geraint.jones/rhydychen.org/gwasg.aredig/odliadur/

# PARTNERIAID RHYFEDD

- Gwaith partner.
- un yn ysgrifennu deg enw a’r llall yn ysgrifennu deg ansoddair **heb ymgynghori â’i gilydd.**
- Rhoi enw rhif 1 efo ansoddair rhif 1.
- Canlyniadau digrif.
- Hefyd, wrth gwrs, yn y Gymraeg cawn weld os **oes treigladau yn dilyn**.
- Rhannu’r goreuon efo’r dosbarth
- Posib gwneud brawddegau
- Posib creu cerdd efo cyfuniad o’r brawddegau (Un ffordd ydy rhoi brawddegau ar ddarnau o bapur a’r tiwtor yn eu tynnu allan o’r het)

# MINI-SAGA
## (LEFEL CANOLRADD I FYNY)

**Gwaith Pâr**

Ysgrifennu stori gyfarwydd (megis stori tylwyth teg) mewn 50 gair union.

Cyfri'r geiriau yng ngwaith set arall o bartneriaid i weld os ydynt wedi cadw i'r rheolau

Ysgrifennu sylwadau positif

# SYLWADAU POSITIF

Bendigedig!

Campus!

Da iawn, iawn!

Penigamp!

Campwaith!

Ardderchog!

Daliwch ati!

Gwell hwyl y tro nesa!

Sblendigedig!

Cynnig da!

# CERDD 'RWYT TI'N…'

Gwneud rhestr, megis

- Diod
- Tywydd
- Amser y dydd
- Lliw
- Cerddoriaeth
- Blodyn

# CERDD 'RWYT TI'N...' - 2

Rhaid disgrifio person, gan ddilyn y drefn honno, ee:

**Rwyt ti'n siampên pefriog.**
**Rwyt ti'n heulwen.**
**Rwyt ti'n fore braf.**
**Rwyt ti'n binc llachar.**
**Rwyt ti'n concerto gan Mozart.**
**Rhosyn melyn wyt ti.**

**DOES DIM ANGEN ODLI!**

(*Gall hwn esgor ar drafod brawddeg bwysleisiol a pha drefn sy'n swnio'n well*)

# Dim angen bod yn sentimental!

Rwyt ti’n gwrw fflat
Rwyt ti’n eirlaw.
Rwyt ti’n noson gynnar.
Rwyt ti’n ddu fel glo.
Rwyt ti’n gân gan ABBA.
Dant y llew wyt ti.

# WEITHIAU MAE'N HWYL BOD YN HOLLOL NEGYDDOL:

Rwyt ti'n fara wedi llwydo

Rwyt ti'n gwmwl yn fy mywyd

Rwyt ti'n llwyd tywyll

Rwyt ti'n amser dechrau gweithio

Rwyt ti'n gerddoriaeth mewn lifft

Draenen wyt ti.

# CERDD DROSI

- Dysgwyr (mewn parau) i restru 10 eitem bob dydd, megis llwy, wy, ffenest ayb.
- Tiwtor yn rhoi 10 gair i fynd gyferbyn â nhw, megis cariad, gobaith, bywyd, priodas, dicter.
- Byddwch chi'n diweddu i fyny efo rhywbeth fel hyn:

| | | |
|---|---|---|
| **llwy** | **=** | **cariad** |
| **wy** | **=** | **gobaith** |
| **ffenest** | **=** | **bywyd** |

# CERDD DROSI - 2

- Creu brawddeg drwy gysylltu'r geiriau:

  Llwy ydi cariad
  Wy ydi gobaith
  Ffenest ydi bywyd

- Esbonio pam:

  Llwy ydi cariad.  Mae'n llawn siwgr.
  Wy ydi gobaith. Mae'n rhoi bywyd newydd.

- Cyfuno'r rhai gorau i greudd cerdd gywaith

# MAE YSGRIFENNU CREADIGOL YN HWYL!

MAE'N RHOI BODDHAD I'R DYSGWYR A CHOFNOD O'U CYRAEDDIAD